# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (230)

### Dyddiad: Dydd Mercher, 25 Hydref 2006

### Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma

### 2.00pm
### Eitem 1: Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 4 a 9 eu grwpio a throsglwyddwyd cwestiwn 8 i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon.

**……………………………**

### 2.46pm
### Eitem 2: Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf.

**……………………………**

### 3.34pm
### Eitem 3: Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Haint Clostridiwm Difficile

**……………………………**

### 4.06pm
### Eitem 4: Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Diwygio Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2006

**NDM3264 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Diwygio Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Cymeradwywyd egwyddor y rheoliadau.**

**NDM3265 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Diwygio Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Diwygio Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Cymeradwywyd y rheoliadau.**

**……………………………..**

***Cynigiwyd bod y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân***

## 4.16pm
## Eitem 5: Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Tai (Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag) (Eithriadau a Gofynion Rhagnodedig) (Cymru) 2006

### NDM3266 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Tai (Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag) (Eithriadau a Gofynion Rhagnodedig) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

### Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn gresynu nad oes modd gwneud Gorchymyn Rheoli Anheddau Gwag os yw'r perchennog dan sylw yn gorff sector cyhoeddus."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 41 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

### Gwelliant 2 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn mynegi pryder nad yw hi'n ofynnol ar Awdurdodau Lleol i godi rhent y farchnad ar eiddo sy'n destun Gorchymyn Rheoli Anheddau Gwag."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 40 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y gorchymyn:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 9 | 0 | 50 |

**Cymeradwywyd egwyddor y gorchymyn.**

**NDM3267 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Tai (Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag) (Eithriadau a Gofynion Rhagnodedig) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Tai (Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag) (Eithriadau a Gofynion Rhagnodedig) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y gorchymyn:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 9 | 0 | 50 |

**Cymeradwywyd y gorchymyn.**

## Eitem 6:

## Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tai (Gorchmynion Rheoli a Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2006

### NDM3268 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Tai (Gorchmynion Rheoli a Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 9 | 0 | 51 |

**Cymeradwywyd egwyddor y rheoliadau.**

### NDM3269 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Tai (Gorchmynion Rheoli a Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Tai (Gorchmynion Rheoli a Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 8 | 0 | 49 |

**Cymeradwywyd y rheoliadau.**

**………………………………**

***Cynigiwyd bod y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân***

## 4.33pm
## Eitem 7: Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Amodau Ychwanegol) (Cymru) 2006

**NDM3270 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Amodau Ychwanegol) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006.

Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio mewn partneriaeth â chyrff sy'n cynrychioli landlordiaid er mwyn cytuno ar y rhwystrau rhag gwella cyflwr eiddo yn y sector rhentu preifat, a goresgyn y rhwystrau hynny."*

Cynhaliwyd pleidlais ar y gwelliant:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 1 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y gwelliant.**

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y gorchymyn wedi'i ddiwygio:

**NDM3270 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Amodau Ychwanegol) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio mewn partneriaeth â chyrff sy'n cynrychioli landlordiaid er mwyn cytuno ar y rhwystrau rhag gwella cyflwr eiddo yn y sector rhentu preifat, a goresgyn y rhwystrau hynny.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y gorchymyn wedi'i ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 5 | 0 | 50 |

**Cymeradwywyd egwyddor y gorchymyn wedi'i ddiwygio.**

**NDM3271 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Amodau Ychwanegol) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Amodau Ychwanegol) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 18 Hydref 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y gorchymyn:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 8 | 0 | 50 |

**Cymeradwywyd y gorchymyn.**

## Eitem 8: Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Esemptiadau Penodedig) (Cymru) 2006

### NDM3272 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Esemptiadau Penodedig) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y gorchymyn:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 8 | 0 | 50 |

**Cymeradwywyd egwyddor y gorchymyn.**

### NDM3273 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Esemptiadau Penodedig) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Esemptiadau Penodedig) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 18 Hydref 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y gorchymyn:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 8 | 0 | 50 |

**Cymeradwywyd y gorchymyn.**

....................................

## 4.44pm
## Eitem 9: Cynnig i gymeradwyo The Amendment to the Code of Practice for Using Plant Protection Products: draft paragraph 3.7.4 o dan Reol Sefydlog 25 rhan 3

**NDM3279 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 25.13:

1. Yn cymeradwyo’r gwelliant drafft, The Amendment to the Code of Practice for Using Plant Protection Products: draft paragraph 3.7.4 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006, a

2. Yn nodi’r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Cymeradwywyd y cynnig.**

....................................

## 4.46pm
## Eitem 10: Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 i Brif Weinidog Cymru

**NDM3277 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau’r Cynulliad Cenedlaethol dan y darpariaethau hynny yn Neddf Rheoli Traffig 2004 a ddaw i rym trwy Orchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2006 (sef adrannau 5(4), 5(5) 10, 16-31, 72-93, 94, 95, 96, 98) i Brif Weinidog y Cynulliad, ac eithrio’r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw:

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau’r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan wybod y cânt eu dirprwyo ymhellach, fel y bo’n briodol, i’r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Cymeradwywyd y cynnig.**

……………………………….

## 4.47pm
## Eitem 11

## Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2006

**NDM3274 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Cymeradwywyd egwyddor y rheoliadau.**

**NDM3275 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Cymeradwywyd y cynnig.**

....................................

## 4.48pm
## Eitem 12:

## Dadl ar Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2005-2006

**NDM3278 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer ei swyddogaethau fel Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ar gyfer 2005-2006, a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 14 Mehefin 2006, gan ddarparu copïau ar gyfer pob Aelod Cynulliad.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 0 | 32 |

**Cymeradwywyd y cynnig**

**………………………………**

**4.58pm**
**Eitem 13:**

**Y ddadl fer**

**NDM3276 Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn):**

Oriel Kyffin Williams ar Ynys Môn.

**………………………………**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.20pm.**

**………………………………**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 7 Tachwedd 2006**

**E P Silk**
**Clerc y Cynulliad**